

# SHOTTON

**CYNLLUN GWEITHREDU CREU LLEOEDD** (2025-2027)

**Cynllun 13 Prosiect i wella Shotton erbyn 2027:**

dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint (CSFf), Cyngor Tref Shotton a Sefydliadau Partner

**2030**

**Mae Cynllun Creu Lleoedd Shotton, wedi'i hysbysu gan 2030 o gyfraniadau gan bobl leol**

**Mae Creu Lleoedd yn ymwneud â llunio lleoedd o amgylch anghenion a dyheadau yr unigolion sy'n byw, gweithio ac ymweld â nhw. Mae'n broses gydweithredol sy'n uno gwybodaeth, syniadau ac adnoddau lleol i wella gofodau cyhoeddus, atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol, a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Lleoedd Shotton wedi'i lunio drwy ymgynghoriad helaeth gyda phreswylwyr, busnesau, grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol. Mae eu mewnwelediad a'u blaenoriaethau wedi cynorthwyo i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol Shotton.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn (2025-2027) yn nodi fframwaith ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar y 10 blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Creu Lleoedd Shotton. Mae'n amlinellu 13 prosiect ymarferol y mae partneriaid lleol wedi ymrwymo i'w darparu. Er bod y prosiectau'n dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau nad ydynt o reidrwydd wedi'u gwarantu, maent yn adlewyrchu uchelgais cryf ac ar y cyd i greu newid cadarnhaol ar gyfer Shotton erbyn 2027.

## Blaenoriaeth 01

### Gwella Bywiogrwydd Canol y Dref

Animeiddio canol y dref i wella gweithgarwch, ffyddlondeb a chefnogi datblygiad economaidd lleol

**Cynllun Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol Trefi**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Cyllid i gefnogi ac annog digwyddiadau cymunedol sy'n dod â bywiogrwydd, ymwelwyr a gwariant lleol

**Effaith erbyn 2027:** Mwy o weithgareddau / digwyddiadau yng nghanol trefi

## Blaenoriaeth 02

### Gwella Sgiliau a Chymwysterau yn y Gymuned

Cefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau a chymwysterau a geisir gan gyflogwyr lleol

**Prosiect Cryfder mewn Rhifau ar gyfer Oedolion**

**I'w ddarparu gan:** Gwasanaeth Gwella Ysgolion / Dysgu Cymunedol Oedolion Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Gwella llythrennedd, sgiliau digidol a chyflogaeth

**Effaith erbyn 2027:** Mwy o breswylwyr â sgiliau a hyder

## Blaenoriaeth 03

### Dathlu hunaniaeth Shotton

Adeiladu ar orffennol yr ydym yn falch ohono; meithrin balchder ac ymdeimlad o berthyn ymysg y bobl leol

**Broceriaeth Gymunedol a Grwpiau'n seiliedig ar Hunaniaeth**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)

**Pwrpas:** Cefnogi grwpiau cymunedol i ddathlu treftadaeth a diwylliant lleol

**Effaith erbyn 2027:** Mwy o gyfleoedd i wirfoddolwyr lleol i gynllunio prosiectau / buddsoddiadau'r dyfodol

## Blaenoriaeth 04

### Cysylltu â'r Afon Dyfrdwy

Gwella cysylltiadau presennol gyda'r Afon Dyfrdwy, gan wneud y cysylltiadau yn fwy cyfleus, diogel a hygyrch

**Cynllun Rheoli Cyrchfan Twristiaeth**

**I'w ddarparu gan:** Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Hyrwyddo stori, asedau ac atyniadau Shotton fel rhan o strategaeth sirol

**Effaith erbyn 2027:** Cynyddu nifer y llysgenhadon twristiaeth a'r ymagwedd ar y cyd i hyrwyddo a darparu gweithgareddau

## Blaenoriaeth 05

### Gwella Apêl Canol y Dref

Codi ansawdd yr amgylchedd a chreu gofod mwy croesawgar a chymdeithasol

**Grant Gwella Eiddo Canol y Dref**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Grantiau i wella eiddo masnachol a denu buddsoddiad

**Effaith erbyn 2027:** Perchnogion / tenantiaid eiddo yn derbyn cefnogaeth i wella neu ehangu, gan hybu ansawdd gweledol a defnydd o'r dref





Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

Trawsnewid Trefi | Transforming Towns

Llywodraeth Cymru | Welsh Government

Cyngor Sir y Fflint TîmAdfywio RegenerationTeam Flintshire County Council

creu lleoedd SIR Y FFLINT

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

## Blaenoriaeth **06**

**Datblygu Canolbwynt Cymdeithasol Shotton**

Gwella cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, ymgysylltu a gweithgarwch cymunedol

**Cefnogaeth i Grwpiau Cymunedol Lleol**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu cefnogaeth i grwpiau sy'n cynnig rhywle cynnes i bobl leol
**Effaith erbyn 2027:** Grwpiau wedi cael cefnogaeth i ddarparu mannau cynnes

**Cynllun Chwarae Plant**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Gwaith Ieuenctid a Chwarae Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Rhaglen 6 wythnos dros y gwyliau ar gyfer plant a theuluoedd
**Effaith erbyn 2027:**
Gwella lles a chysylltiadau cymdeithasol teuluoedd

## Blaenoriaeth **07**

**Gwella Safon a Chyflenwad Tai**

Datblygu cyfleoedd i wella darpariaeth tai ac ansawdd bywyd ymysg y trigolion lleol

**Ymgysylltiad y Cynllun Datblygu Lleol**

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Polisi Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Sicrhau bod anghenion tai Shotton yn cael eu hadolygu a'u hadlewyrchu mewn polisi cynllunio sirol
**Effaith erbyn 2027:**
Anghenion lleol wedi'u mapio a pholisi'n seiliedig ar wybodaeth

## Blaenoriaeth **08**

**Annog Gweithredu, Iechyd a Lles Cymunedol**

Darparu gweithgareddau a chefnogaeth i helpu pobl leol i fyw bywydau egnïol ac iach

**Rhaglen Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Heneiddio'n Dda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Ymgysylltu â phreswylwyr hŷn i lunio gwasanaethau a chynlluniau
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o bobl hŷn yn lleisio eu barn ar benderfyniadau ar gyfer y dref

**Presgripsiynu Cymdeithasol a Chysylltiadau Iechyd**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)
**Pwrpas:** Cysylltu pobl gyda chefnogaeth lles lleol
**Effaith erbyn 2027:**
Cymunedau wedi'u cysylltu'n well gyda gwasanaethau iechyd a lles

## Blaenoriaeth **09**

**Gwella a Datblygu Mannau Gwyrdd**

Buddsoddi mewn mannau gwyrdd i greu ymdeimlad o le; er budd natur, pobl a'r amgylchedd

**Buddsoddiad mewn Mannau Gwyrdd**

**I'w ddarparu gan:**
Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Gwelliannau i Barc Ash Grove, Gardd Goffa'r Jiwbilî, a Maes Parcio Charnley's Lane
**Effaith erbyn 2027:** Tri chynllun gwella gwyrdd wedi'u darparu

**Prosiect Datblygu Gardd Gymunedol**

**I'w ddarparu gan:** CIC RainbowBiz
**Purpose:** Creu gofod rhandiroedd cymunedol i hyrwyddo iechyd, lles a chynhwysiant
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o breswylwyr lleol yn ymwneud â bywyd cymunedol iach yn yr awyr agored

## Allwedd

Cynrychiolir pob **blaenoriaeth** gan liw unigryw.
Efallai y bydd gan brosiectau sawl smotyn lliw sy'n dangos eu bod yn cyfrannu at fwy nag un flaenoriaeth.

**Sut i'w ddarllen:**
Mae prosiect sy'n cynnwys **un smotyn** yn cefnogi'r un flaenoriaeth honno.
Mae prosiect sy'n cynnwys **mwy nag un smotyn** yn cefnogi mwy nag un flaenoriaeth.

- Blaenoriaeth 1
- Blaenoriaeth 2
- Blaenoriaeth 3
- Blaenoriaeth 4
- Blaenoriaeth 5
- Blaenoriaeth 6
- Blaenoriaeth 7
- Blaenoriaeth 8
- Blaenoriaeth 9
- Blaenoriaeth 10

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan. This document is also available in English. See English page on our website."

## Blaenoriaeth **10**

**Datblygu Teithio Llesol, Cysylltedd a Synnwyr o Gyrraedd**

Hyrwyddo a gwella'r cysylltiadau rhwng llwybrau a rhwydweithiau presennol a buddsoddi yn y lle

**Gwella Cysylltiadau Teithio Llesol a Chysylltiadau Cerdded/Beicio**

**I'w ddarparu gan:**
Gwasanaethau Stryd a Chludiant CSFf
**Pwrpas:** Gwelliannau teithio llesol a rheoli traffig
**Effaith erbyn 2027:**
Cyfleusterau llwybr beicio a bysiau gwell a gwella llif traffig

